Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

# Mai 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

## Cynnwys


Cynnwys 2

Pwrpas yr adroddiad hwn 4

Cefndir 4

Cyllid Ffyniant Bro 4

Corwen 5

Rhestr o Fudd-ddeiliaid 6

Budd-ddeiliaid mewnol 6

Partneriaid darparu 6

Budd-ddeiliaid cymunedol 7

Crynodeb o'r ymgysylltu a'r ymgynghori a wnaed hyd yma 7

Gweithgarwch wedi'i drefnu ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol 9

Dadansoddi'r ymgynghoriad (rhannu gwybodaeth) 9

Cwestiwn: Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau? 9

Data a Gasglwyd 10

Cwestiwn: A ddaethoch chi i'r sesiwn gwybodaeth ar 9 Chwefror 2023? 10

Cwestiwn: Pa mor hawdd oedd cyrraedd y lleoliad? 11

Cwestiwn: Amseriad y digwyddiad. 11

Cwestiwn: Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd. 12

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las


Cwestiwn: Mor gyfeillgar/cymwynasgar oedd y staff. 12

Cwestiwn: Y gallu i ddewis cymryd rhan yn Gymraeg. 13

Cwestiwn: A wnaeth rhywbeth eich atal rhag bod yn bresennol? 13

Cwestiwn: A oes rhywbeth y gallem ei wneud er mwyn ichi fedru dod i sesiynau gwybodaeth neu ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu eraill yng Nghorwen yn y dyfodol (ynglŷn ag unrhyw bwnc)? 14

Cwestiwn: Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn ynglŷn â phrosiect Gwella’r Parth Cyhoeddus yng Nghorwen neu ofyn unrhyw gwestiynau. 14

Cwestiwn: A hoffech chi gael ymateb i’ch sylwadau? 15

Cwestiwn: Sut ddylem gysylltu â chi? 15

Cwestiwn: Pa un yw eich iaith ddewisol? 15

Y camau nesaf 16

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o’r gwaith ymgysylltu a wnaed hyd yma ar gyfer Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las.





## Cefndir

### Cyllid Ffyniant Bro

Mae’r Gronfa Ffyniant Bro yn gronfa Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Mae’n un rhan o ddarpariaeth ehangach y Llywodraeth i wella cyfleoedd ledled y Deyrnas Gyfunol i gyd. Diben y gronfa’n arbennig yw cefnogi buddsoddiad mewn lleoedd y gall wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pob dydd, yn cynnwys hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Gall hyd at £4.8 biliwn (tan 2024-25) fod ar gael drwy’r Gronfa ledled y Deyrnas Gyfunol, a buddsoddir o leiaf £800 miliwn yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd y Gronfa’n canolbwyntio ar fuddsoddiadau cyfalaf. Am wybodaeth pellach ewch i’n gwefan.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

## Corwen

Nod y prosiect newydd hwn yw hyrwyddo a gwella Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las drwy dwtio palmentydd, eu glanhau ail bwyntio slabiau a gosod rhai newydd mewn mannau heb rai ar hyn o bryd, yn ogystal ag adnewyddu celfi stryd ac arwyddion yng nghanol y dref. Bydd y gwaith arfaethedig ym Maes Parcio Lôn Las yn gwella cysylltiadau a phrofiadau ymwelwyr drwy ailwampio'r bloc toiledau'n gyfleuster allweddol gyda mannau gwefru ychwanegol ar gyfer ceir trydan i breswylwyr ac ymwelwyr eu defnyddio, a safle bws ychwanegol ar gyfer teithio ymhellach. Y nod yw gwella profiad ymwelwyr a thrigolion ac annog pobl i dreulio rhagor o amser yma.

I gyflawni hynny, mae dau o feysydd allweddol wedi'u nodi:

1. Canol Tref Corwen
2. Maes Parcio Lôn Las

Yn benodol, mae'r prosiect yn ceisio:

- Diwygio/paentio a glanhau'r celfi stryd ynghanol y dref; hynny yw, arwyddbyst metel, atalbyst a meinciau.
- Adnewyddu'r meinciau tua phen uchaf y Stryd Fawr neu osod rhai newydd yn eu lle
- Codi lloches bws newydd.
- Glanhau ac ail-bwyntio slabiau pafin presennol.
- Gosod slabiau newydd mewn llecyn bach i gyd-fynd â'r pafin presennol.
- Creu man pwrpasol ar y Stryd Fawr i godi coeden Nadolig bob blwyddyn.
- Adnewyddu'r bloc toiledau, a allai gynnwys: Drysau newydd sy'n agor ag allweddi Radar, 5ed ciwbicl i bobl Anabl a phobl â Dementia ac ail-baentio tu allan yr adeilad.
- Lôn fysus newydd ym Maes Parcio Lôn Las gyda chyrbiau isel er hygyrchedd.
- Pump o fannau gwefru deuol ar gyfer cerbydau trydan, ar gael i'r cyhoedd.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

- Gosod meinciau a byrddau picnic newydd yn lle’r rhai presennol
- Codi arwyddion newydd yn y maes parcio i ddangos y ffordd i ymwelwyr fynd i’r Stryd Fawr

## Rhestr o Fudd-ddeiliaid

Mae’r budd-ddeiliaid y mae’r Cyngor wedi ymgysylltu â hwy neu y bydd yn disgwyl ymgysylltu â hwy ar wahanol gamau o’r prosiect yn cynnwys:

### Budd-ddeiliaid mewnol

Budd-ddeiliaid mewnol yw’r rhai hynny sy’n gweithio yn y Cyngor ac y gallai fod angen iddynt gyfrannu at y prosiect:

- **Arweinydd, Aelodau Etholedig a Grwpiau Ardal yr Aelodau** - Aelod Arweiniol, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref Corwen
- **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad**-Swyddog Coed, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ecoleg
- **Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol** - Cludiant, Gwasanaethau Stryd
- **Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo** - Dylunio ac Adeiladu
- **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata**
- **Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

### Partneriaid darparu

Mae partneriaid darparu yn gweithio mewn sefydliadau y tu allan i’r Cyngor ond â dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru neu’r Deyrnas Gyfunol i fod yn rhan o’r prosiect.  Efallai hefyd bod nodau sefydliadol y partneriaid hyn yn ategu amcanion y prosiect.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

- Cyngor Tref Corwen
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Cadwyn Adfywio
- Llangollen Railway Trust - Gorsaf Reilffordd Corwen

### Budd-ddeiliaid cymunedol

Mae Budd-ddeiliaid cymunedol yn dynodi eu hunain yn bobl sy’n perthyn i garfan benodol o’r gymdeithas neu’r economi fel unigolion neu sefydliadau preifat.

- Cymuned fusnes ehangach Corwen
- Y gymuned sy’n byw yng Nghorwen
- Pobl sy’n gweithio yng Nghorwen
- Pobl sy’n ymweld â Chorwen (twristiaid, er enghraifft)

## Crynodeb o’r ymgysylltu a’r ymgynghori a wnaed hyd yma

Hyd yma, mae’r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori canlynol wedi’i wneud:

| **Dyddiad** | **Crynodeb o’r Gweithgarwch** | **Adnoddau a fu’n ofynnol** | **Budd-ddeiliaid a gymerodd ran** |
|---|---|---|---|
| 17 Tachwedd 2022 | Cerdded o amgylch Corwen â Chynghorwyr Sir Ddinbych a Chynghorwyr y Dref | E-bost | Swyddogion y Cyngor<br>Cynghorwyr Sir<br>Aelodau Cyngor Tref Corwen |

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

| Dyddiad | Crynodeb o'r Gweithgarwch | Adnoddau a fu'n ofynnol | Budd-ddeiliaid a gymerodd ran |
|---|---|---|---|
| 9 Chwefror 2023 | Sesiwn gwybodaeth anffurfiol ym Mharc Coffa Corwen (pedair awr) | Anfon llythyrau at breswylwyr lleol a busnesau<br><br>Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol<br><br>Hyrwyddo ymgysylltu drwy fudd-ddeiliaid allweddol | Busnesau yng Nghorwen<br><br>Pobl sy'n byw yng Nghorwen |
| 10 Chwefror 2023 – 23 Chwefror 2023 | Holiadur yr Ymgynghoriad (rhannu gwybodaeth) | E-bost<br><br>Hyrwyddo ymgysylltu drwy fudd-ddeiliaid allweddol<br><br>Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol<br><br>Porth Ymgysylltu Sgwrs Sir Ddinbych<br><br>Holiaduron ar bapur | Pawb â diddordeb |

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

## Gweithgarwch wedi'i drefnu ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol

| Dyddiad | Crynodeb o'r Gweithgarwch | Adnoddau a fu'n ofynnol | Budd-ddeiliaid a gymerodd ran |
|---|---|---|---|
| Ebrill – Mehefin 2023 | Cwblhau'r Tendr | E-bost<br>Datganiad i'r Wasg<br>Hyrwyddo drwy fudd-ddeiliaid allweddol<br>Negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol | Pawb â diddordeb |

## Dadansoddi'r ymgynghoriad (rhannu gwybodaeth)

Roedd y noson wybodaeth a gynhaliwyd yn y Parc Coffa ar 9 Chwefror yn llwyddiant ysgubol gyda thyrfa dda yno, a hoffem ddiolch i bawb a wnaeth yr ymdrech i ddod i siarad â ni. Lansiodd y Cyngor arolwg rhwng 10 Chwefror a 23 Chwefror 2023 i holi barn pobl am y prosiect a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yng Nghorwen.

Cyflwynwyd naw o ymatebion yn syth drwy Borth Ymgysylltu Sgwrs Sir Ddinbych neu drwy lenwi holiaduron ar bapur.

### Cwestiwn: Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Rwy'n byw ac yn gweithio yng Nghorwen | **4** | **44.44%** |
| Rwy'n byw yng Nghorwen ond yn gweithio'n rhywle arall | | |

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Rwy’n gweithio yng Nghorwen ond yn byw’n rhywle arall | **3** | **33.33%** |
| Rwy’n ymweld â Chorwen o rywle arall yn Sir Ddinbych | **1** | **11.11%** |
| Rwy’n ymweld â Chorwen o rywle arall (nid yn Sir Ddinbych) | | |
| Rwy’n Gynghorydd Sir | | |
| Rwy’n aelod o Gyngor y Dref neu Gyngor Cymuned yn y cyffiniau | **1** | **11.11%** |
| Dim ymateb | **0** | **0%** |

## Data a Gasglwyd

Casglwyd data i’n helpu i ddeall barn yr holl gyfranogwyr o’r sesiwn gwybodaeth a’r cynlluniau ar gyfer y prosiect.

### Cwestiwn: A ddaethoch chi i’r sesiwn gwybodaeth ar 9 Chwefror 2023?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Do | **4** | **44.44%** |
| Naddo | **5** | **55.56%** |

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

**Cwestiwn: Pa mor hawdd oedd cyrraedd y lleoliad?**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Hawdd iawn | **1** | **50%** |
| Hawdd | **1** | **50%** |
| Anodd | | |
| Anodd Iawn | | |
| Amherthnasol | | |

Cafwyd dau o ymatebion i'r cwestiwn un dewis hwn.

**Cwestiwn: Amseriad y digwyddiad.**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Ardderchog | **1** | **50%** |
| Da | **1** | **50%** |
| Gwael | | |
| Gwael Iawn | | |
| Amherthnasol | | |

Atebodd dau o ymatebwyr y cwestiwn un dewis hwn.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

**Cwestiwn: Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd.**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Ardderchog | **1** | **50%** |
| Da | **1** | **50%** |
| Gwael | | |
| Gwael Iawn | | |
| Amherthnasol | | |

Atebodd dau o ymatebwyr y cwestiwn un dewis hwn.

**Cwestiwn: Mor gyfeillgar/cymwynasgar oedd y staff.**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Ardderchog | | |
| Da | **1** | **50%** |
| Gwael | **1** | **50%** |
| Gwael Iawn | | |
| Amherthnasol | | |

Atebodd dau o ymatebwyr y cwestiwn un dewis hwn.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

**Cwestiwn: Y gallu i ddewis cymryd rhan yn Gymraeg.**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Ardderchog | | |
| Da | | |
| Gwael | **1** | **50%** |
| Gwael Iawn | | |
| Amherthnasol | **1** | **50%** |

Atebodd dau o ymatebwyr y cwestiwn un dewis hwn..

**Cwestiwn: A wnaeth rhywbeth eich atal rhag bod yn bresennol?**

| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Cyrraedd y sesiwn/problemau cludiant | **1** | **25%** |
| Hygyrchedd y lleoliad | | |
| Ymrwymiadau gwaith | **1** | **25%** |
| Ymrwymiadau gofalu neu warchod plant | **2** | **50%** |
| Nid oedd gennyf ddiddordeb mewn dod i’r sesiwn gwybodaeth | | |
| Rhywbeth arall | | |

Atebodd pedwar o ymatebion y cwestiwn aml-ddewis hwn.

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

**Cwestiwn: A oes rhywbeth y gallem ei wneud er mwyn ichi fedru dod i sesiynau gwybodaeth neu ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu eraill yng Nghorwen yn y dyfodol (ynglŷn ag unrhyw bwnc)?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Hysbysebu’r sesiynau’n fwy helaeth ac mewn da bryd fel y gall pobl wneud trefniadau i fod yn bresennol. | 1 |
| Nac oes, fe gefais broblemau’r diwrnod hwnnw | 1 |

Atebodd dau o ymatebwyr y cwestiwn aml-ddewis hwn (yn eu geiriau eu hunain).

**Cwestiwn: Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn ynglŷn â phrosiect Gwella’r Parth Cyhoeddus yng Nghorwen neu ofyn unrhyw gwestiynau.**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Arwydd i’r ‘Llyfrgell’ | 1 |
| Y ffordd fwyaf effeithiol o roi hwb i siopwyr Corwen a’r bobl sy’n siopa yma yw rhoi’r hanner awr gyntaf am ddim i bawb sy’n parcio yn y maes parcio. Byddai hynny’n annog mwy o bobl leol i siopa yng Nghorwen a byddai’r twristiaid sy’n mynd ar y trên/mynd i gerdded ac ati yn dal i dalu am barcio. | 1 |
| Credaf fod dirfawr angen yr holl welliannau hyn ar y dref, a gellid gwneud cymaint mwy pe byddai yno ‘weledigaeth fawr’. Mae bod wrth ymyl yr A5 yn amharu’n fawr ar y dref. Mae’r olwg ar du blaen yr adeiladau’n creu teimlad o le sy’n dirywio. Byddai cystadleuaeth syml i baentio a chlirio cafnau a phibelli glaw’n gwella pethau’n fawr. Yn hirdymor, credaf y dylid gwneud mwy i ddatblygu’r dref ar gangen oddi ar yr A5, fel ardal y maes parcio, er enghraifft. Ardal helaeth sy’n mynd i lawr at lannau braf yr afon, draw o’r brif ffordd (fel Llangollen). Gellid symud y ganolfan gymunedol i’r canolbwynt hwn a chael siopau bach o’i hamgylch i gynnig gwasanaethau i ymwelwyr a’r bobl sy’n defnyddio’r orsaf newydd. Byddai’n ddrud, ond yn rhatach na ffordd osgoi! | 1 |

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

Atebodd tri o ymatebwyr y cwestiwn agored hwn (yn eu geiriau eu hunain).

**Cwestiwn: A hoffech chi gael ymateb i'ch sylwadau?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Hoffwn | **2** | **66.67%** |
| Na hoffwn | **1** | **33.33%** |

**Cwestiwn: Sut ddylem gysylltu â chi?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| E-bost | **2** | **100%** |
| Llythyr drwy'r post | | |
| Galwad ffôn | | |

**Cwestiwn: Pa un yw eich iaith ddewisol?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Cymraeg | | |
| Saesneg (English) | **2** | **100%** |
| Iaith arall | | |

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r Gymuned ynghylch Gwelliannau Canol Tref Corwen a Maes Parcio Lôn Las

## Y camau nesaf

Diolch o galon unwaith eto i’r holl breswylwyr a wnaeth yr ymdrech i ddod i siarad â ni yn y sesiwn gwybodaeth. Diolch hefyd i bawb a lenwodd yr holiadur ar-lein wedi hynny. Rydym wedi ystyried eich sylwadau a’ch awgrymiadau, ac wedi diwygio’r dyluniad terfynol ar sail y rhai hynny a oedd yn ymarferol ac yn unol â chwmpas y cynllun a’r cyllid. Y cam nesaf fydd gosod y gwaith ar dendr drwy drefn arferol y Cyngor. Unwaith y bydd gennym wybodaeth i’w gyhoeddi fe wnawn hynny drwy’r wasg leol a chyfryngau cymdeithasol. Mae’r Cyngor yn annog trigolion, ymwelwyr a busnesau i ddal i rannu eu profiadau a’u barn am Gorwen. Bydd y data’n ddefnyddiol ac yn cynorthwyo’r Cyngor i ddal i gynllunio a chefnogi Corwen yn y dyfodol.